# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn

# 20/04/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Staff Meddygol

**C4 Brian Gibbons :** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â'r prinder staff meddygol graddfa ganol yng Nghymru? OAQ(3)2782(FM) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig.*

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Yr wyf yn ymwybodol o brinder meddygon graddfa ganol. I fynd i'r afael â hyn, sefydlwyd grŵp adolygu meddygon iau sy'n cymryd camau i wella'r sefyllfa. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cymdeithas Feddygol Brydeinig Cymru, deoniaeth yr ôl-raddedigion a chyflogwyr y gwasanaeth iechyd gwladol yn aelodau o'r grŵp hwn.

*Atebwyd cwestiynau 6, 7, 9, 10, 11 a 12 yn ystod y Cyfarfod Llawn.*

*Tynnwyd cwestiynau 5, OAQ(3)2768(FM), ac 8, OAQ(3)2780(FM), yn ôl.*

### Pobl Ifanc

**C13 Lorraine Barrett:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gefnogi pobl ifanc yn Ne Caerdydd a Phenarth? OAQ(3)2781(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi llawer o bobl ifanc yng Nghymru drwy fentrau a amlinellir yn y ddogfen sydd wedi bod yn destun ymgynghoriad ar ganllawiau statudol diwygiedig ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuenctid 11-25 a gwasanaethau cymorth dysgwyr 14-19. Mae 'Gwneud Pethau'n Iawn', ein cynllun gweithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn sydd newydd ei lansio, yn tynnu sylw at 16 blaenoriaeth yng Nghymru.

### Tlodi Tanwydd

**C14 Mark Isherwood:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisïau i fynd i'r afael â thlodi tanwydd? OAQ(3)2786(FM)

**Y Prif Weinidog:** Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cyhoeddi ei strategaeth tlodi tanwydd cyn toriad yr haf. Yr ydym yn ymrwymedig i fynd i'r afael â thlodi tanwydd ac yn ychwanegol at yr arian a fuddsoddir drwy Arbed a'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref, yr ydym yn buddsoddi £2.5 miliwn yn y cynllun sgrapio boeleri ar gyfer deiliaid cartrefi dros 60 oed yn 2010-11.

### Economi Cymru

**C15 Nick Bourne:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am economi Cymru? OAQ(3)2776(FM)

**Y Prif Weinidog**: Mae'r economi yng Nghymru yn gwella yn dilyn effeithiau'r dirwasgiad

byd-eang. Mae heriau yn ein hwynebu ond mae cyfleoedd ar gael hefyd. Bydd y polisïau yr ydym yn eu rhoi yn eu lle ar hyn o bryd yn ein helpu i baratoi ar gyfer yr heriau hyn ac i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd hynny.